# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 6 Chwefror 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Trafodaethau ar Faterion nad ydynt wedi eu Datganoli

**C11 Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru adrodd ynghylch unrhyw drafodaethau a gafodd yn ddiweddar â'i gydweithwyr yn San Steffan am faterion Cymreig nad ydynt wedi eu datganoli? (OAQ9338)

**Prif Weinidog Cymru:** Caf drafodaethau aml gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU ar faterion nad ydynt wedi eu datganoli, megis lloches a mewnfudo, y Gwasanaeth Cyflogi, dyfodol y swyddfeydd post a buddsoddi mewn gorsafoedd amddiffyn.

### Swyddogaethau Cabinet y Cynulliad

**C12 Jocelyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch swyddogaethau Cabinet y Cynulliad? (OAQ9322) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Datblygu Polisi yng Nghymru

**C13 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch y camau a gymerwyd wrth ddatblygu polisi'n gyffredinol yng Nghymru? (OAQ9318) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Materion Trawsbynciol

**C14 Dafydd Wigley:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y camau a gymerwyd o ran polisi ym maes materion trawsbynciol? (OAQ9333) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Y Biwro Cofnodion Troseddol

**C15 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cael gyda'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch gwaith y Biwro Cofnodion Troseddol yng Nghymru? (OAQ9329) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Annog Cymunedau i Chwarae Rhan

**C16 Richard Edwards:** Yn ei rôl fel cydlynydd datblygu polisi, beth y mae Prif Weinidog Cymru yn ei wneud er mwyn annog cymunedau i chwarae rhan yn natblygiad cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru? (OAQ9327) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Ehangu'r Undeb Ewropeaidd

**C17 Val Feld:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch hyd a lled polisi'r Cynulliad ar ehangu'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ9343) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gwaith y Biwro Cofnodion Troseddol

**C18 Mick Bates:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cael gyda'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch gwaith y Biwro Cofnodion Troseddol yng Nghymru? (OAQ9340) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Goblygiadau yr Ewro i Gymru

**C19 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cael gyda Gweinidogion San Steffan ynghylch goblygiadau posibl yr ewro i Gymru pan fydd ar waith yn llawn yn 2002? (OAQ9328) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Hawliadau Glowyr am Iawndal a Thaliadau

**C20 Janice Gregory:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch hawliadau glowyr am iawndal a'r taliadau a wnaethpwyd iddynt yng Nghymru? (OAQ9342) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Trafodaethau gyda'r Cyngor Partneriaeth Busnes

**C21 Brian Hancock:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar drafodaethau gyda'r Cyngor Partneriaeth Busnes mewn perthynas â datblygu mentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru? (OAQ9320) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cyfarfodydd â Chydweithwyr yn Ewrop

**C22 Alun Cairns:** A all Prif Weinidog Cymru wneud datganiad mewn perthynas ag unrhyw gyfarfodydd y mae wedi'u cynnal yn ddiweddar â'i gydweithwyr yn Ewrop o ran materion Cymreig? (OAQ9344)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cwrdd yn rheolaidd â chydweithwyr Ewropeaidd amrywiol, naill ai pan fyddant yn ymweld â'r Cynulliad neu mewn cynadleddau yn Ewrop. Trafodir amrediad eang o faterion, ac mae nifer ohonynt o ddiddordeb uniongyrchol i Gymru, gan gynnwys y rhagolygon ar gyfer y gynhadledd rynglywodraethol nesaf yn 2004. Cytunwyd ar hynny yn uwchgynhadledd Nice ar ddiwedd 2000 a bydd yn edrych ar y siarter galluoedd ar gyfer y lefel ranbarthol, y lefel genedl-wladwriaethol a'r lefel Ewropeaidd, er mwyn egluro eu rolau a'u cyfrifoldebau priodol.

## Polisïau Materion Gwledig

**C23 Pauline Jarman:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y ffordd y mae ei rôl o ran cydlynu datblygiad polisi yn effeithio ar bolisïau materion gwledig? (OAQ9332) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**C24 Helen Mary Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar ei drafodaethau diweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch datblygu polisi ar faterion heb eu datganoli sydd yn berthnasol i Gymru? (OAQ9334) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Trafodaethau gyda'r Cyngor Prydeinig Gwyddelig

**C25 David Lloyd:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar drafodaethau yn y dyfodol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Cyngor Prydeinig Gwyddelig? (OAQ9321) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Sefydliad Materion Cymreig

**C26 Janet Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr yn dilyn ymlaen o'i araith 'Variable Geometry UK' a roddodd i'r Sefydliad Materion Cymreig ar 2 Chwefror 2000? (OAQ9341) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**C27 David Melding:** A yw Prif Weinidog Cymru wedi cynnal trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar faterion sydd yn berthnasol i Gymru ac na chawsant eu datganoli i'r Cynulliad? (OAQ9337) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cyfarfodydd Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

**C28 Janet Ryder:** Fel cydlynydd polisi'r Llywodraeth yng ngogledd Cymru, a yw Prif Weinidog Cymru'n cyflawni'r ymrwymiad a wnaeth ar 31 Hydref 2000, pan y dywedodd y byddai'n mynd i bob un o gyfarfodydd Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd y caiff wahoddiad iddo? (OAQ9335) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cydlynu Cyhoeddiadau ar Faterion sydd o Ddiddordeb i'r Ddwy Ochr

**C29 Owen John Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gymryd camau i sicrhau bod adrannau'i Weinidogion yn ceisio cytundeb y rhai sydd yn cyfateb iddynt yn adrannau Whitehall er mwyn gofalu y cydlynir cyhoeddiadau ar faterion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr? (OAQ9315) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Pan fo'n bosibl, ceisiwn roi gwybod ar unwaith i'r Cynulliad a'r cyhoedd yng Nghymru am gyhoeddiadau yn Whitehall sydd â goblygiadau i Gymru. O dan y concordatau a gytunwyd rhwng Cabinet y Cynulliad ac adrannau'r Llywodraeth ganolog, mae gofyn rhoi rhybudd ymlaen llaw am gyhoeddiadau pwysig a, lle ceir budd i'r ddwy ochr o wneud cyhoeddiadau ar y cyd, gellir sefydlu trefniant o'r fath.

### Pwysigrwydd Hawliau Plant

**C30 Elin Jones:** A all Prif Weinidog Cymru wneud datganiad pellach ar ei ymateb yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Hydref 2000, pan y dywedodd y byddai'n rhoi sicrwydd llwyr i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i blant Cymru y rhoddid y pwys haeddiannol ar hawliau plant? (OAQ9331) ***Tynnwyd yn ôl.***